



CREDYD CYNHWYSOL

Beth yw e' a sut dwi'n gwneud cais?

Budd-dal yw Credyd Cynhwysol i'ch helpu i dalu eich costau byw a rhent os ydych ar incwm aelwyd isel neu heb arian yn dod i fewn.

Mae Credyd Cynhwysol yn cymryd lle nifer o'r budd-daliadau hen ddull yn cynnwys:

- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm (JSA) neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm (ESA)
- Budd-dal Tai
- Cymhorthdal Incwm

Gallwch hawlio Credyd Cynhwysol fel arfer os ydych yn 18 oed neu drosodd a bod gennych llai na £16,000 mewn cynilion.

Sur dwi'n gwneud cais?

Mae'n rhaid i chi wneud cais am Credyd Cynhwysol [ar-lein](#)

Unwaith rydych chi wedi gwneud cais, gofynnir i chi drefnu cyfweiliad gydag anogwr gwaith, fel arfer o fewn 7 diwrnod. Mae'r cyfweiliadau hyn yn cael eu cynnal dros y ffôn ar hyn o bryd. Yn ystod y cyfweiliad gofynnir i chi gytuno i 'ymrwymiad hawlydd'.

Sut byddaf yn cael fy nhalu?

Bydd y taliadau yn cael eu gwneud yn fisol a'u talu yn syth i fewn i'ch cyfrif banc.

Mae'n rhaid i chi aros o leiaf 5 wythnos cyn eich taliad cyntaf.

Os ydych angen arian yn gynt gallwch ofyn am daliad ymlaen llaw y byddwch wedyn yn gorfod ei ad-dalu dros y 12 mis nesaf.

Faint byddaf yn ei gael?

Mae'r swm y byddwch yn ei gael yn dibynnu ar eich amgylchiadau.

Defnyddiwch y [Turn2us benefit calculator](#) i weld faint y gallech chi gael.

Gall Credyd Cynhwysol gynnwys taliad i'ch helpu i dalu eich rhent. Mae hyn fel arfer yn cael ei dalu i chi a mae'n rhaid i chi dalu eich landlord. Efallai na fydd yn ddigon i dalu eich rhent i gyd a bydd rhaid i chi dalu unrhyw ddiffyg. Mewn rhai achosion gall y taliad hwn gael ei dalu yn uniongyrchol i'ch landlord.

Ble allaf gael cymorth pellach?

Edrychwch am fwy o wybodaeth ar Credyd Cynhwysol ar ein [tudalennau cyngor](#).

Os ydych angen help gyda'ch cais credyd cynhwysol, cysylltwch â gwasanaeth cyngor [Help to Claim](#) Cyngor ar Bopeth.

Am wybodaeth bellach

Ewch i: sheltercymru.org.uk

Ffoniwch: 08000 495 495

Cefnogir gan



Diweddarwyd Ebrill 2021.

Mae'r wybodaeth ar y dudalen ffeithiol hon yn gywir ar adeg cyhoeddi. Gwiriwch manylion cyn defnyddio.

Mae Shelter Cymru yn elusen gofrestredig. Rhif 515902

